

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Peiriannydd Cynnal a Chadw Strwythurau – Arolygydd heb ei ardystio

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH
ACGChC

Yn yr ACGChC  rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





**Teitl y swyd:** Peiriannydd Cynnal a Chadw Strwythurau - Arolygydd heb ei ardystio

**Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.**

**Rydym yn chwilio am Peiriannydd Cynnal a Chadw Strwythurau - dim ardystiedig**

**Cyflog:** S4 (SCP 26-28) £37,280 - £39,152

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:**– Un o'r lleoliad canlynol: Parc Menai / Conwy / Llanelwy / Llandrindod / Drenewydd / Aberystwyth neu Helygain

**Dyddiad cau:** 19/02/2026

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

- Mae gan ACGChC  gyfle cyffrous i ymgeisydd brwdfrydig ymuno â'n tîm strwythurau deinamig.
- Mae'r swydd barhaol hon yn addas iawn i unigolyn sy'n awyddus i ddatblygu ei yrfa mewn peirianneg cynnal a chadw strwythurau.
- Byddai gan yr ymgeisydd delfrydol angerdd am Strwythurau yn gyfrifol am gynnal archwiliadau statudol o strwythurau sy'n gysylltiedig â phriffyrdd, gan gynnwys pontydd, twneli, cwlfertau, waliau cynnal, ac asedau cysylltiedig eraill.
- Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am gynnal archwiliadau statudol o strwythurau sy'n gysylltiedig â phriffyrdd, gan gynnwys pontydd, twneli, cwlfertau, waliau cynnal, ac asedau cysylltiedig eraill. Bydd arolygiadau'n cael eu cynnal yn unol â'r Llawlyfr Arolygu perthnasol a safonau achredu'r Cynllun Arolygu ac Ardystio Pontydd (BICS), gan sicrhau asesiadau cywir a chyson o gyflwr asedau.
- Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am Bydd deiliad y swydd yn cynnal Prif Arolygiadau a Chyffredinol, gan nodi diffygion strwythurol, dirywiad, a risgiau diogelwch posibl.
- Rydym yn chwilio am berson sydd a'r angerdd i llunio adroddiadau arolygu clir, cynhwysfawr, gan ddarparu cofnodion ac argymhellion cywir i lywio strategaethau rheoli asedau, rhaglenni cynnal a chadw, a chydymffurfiaeth â gofynion statudol a diwydiant.
- Mwynhau gweithio'n agos gyda chleientiaid ac aelodau eraill o'r tîm proffesiynol a chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu atebion sy'n rhagori ar ddisgwyliadau ein cleientiaid.




Mae'r swydd yn cynnwys y cyfrifoldebau ychwanegol canlynol ac mae’r Swydd Disgrifiad yn rhoi cefndir mwy cynhwysfawr i chi o’r swydd):

- Cynorthwyo'r Uwch Beiriannydd Cynnal a Chadw Strwythurau i reoli'r rhaglen cynnal a chadw strwythurau priffyrdd arferol ar gyfer dros 2000 o strwythurau. Datblygu arbenigedd arbenigol i sicrhau bod effeithlonrwydd gweithrediadau cynnal a chadw yn cael ei wneud i'r eithaf.
- Ymgymryd â rôl arweiniol a bod yn arloesol wrth gyflawni gwasanaeth cynnal a chadw ac arolygu cyffredinol o fewn yr Uned Rheoli Pontydd.
- Cymhwyso egwyddorion peirianneg i bennu cyfnodau arolygu yn y dyfodol.
- Cynnal Prif Arolygiadau ac Arolygiadau Cyffredinol o strwythurau priffyrdd (gan gynnwys pontydd ffyrdd, croesfannau afonydd, cwlfertau, waliau cynnal, ac asedau cysylltiedig eraill) yn unol â'r Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd, safonau achredu BICS a Llawlyfr Arolygu Llywodraeth Cymru.
- Cofnodi ac asesu cyflwr elfennau strwythurol, gan nodi diffygion, dirywiad a pheryglon posibl.
- Llunio adroddiadau arolygu cywir, manwl, gan gynnwys graddfeydd cyflwr, ffotograffau ac argymhellion cynnal a chadw.
- Sicrhau bod cofnodion arolygu yn cael eu cwblhau yn unol â gofynion statudol, safonau'r diwydiant, a gweithdrefnau awdurdodau lleol.
- Cysylltu â pheirianwyr, rheolwyr asedau, a rhanddeiliaid eraill i ddarparu mewnbwn technegol ar ganfyddiadau arolygiad.
- Cefnogi'r gwaith o gynllunio a blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw, atgyweirio a gwella yn seiliedig ar ganlyniadau arolygiad.
- Ymgymryd ag ymweliadau safle mewn amrywiaeth o amgylcheddau, gan gynnwys gweithio ar uchder, mewn mannau cyfyng, neu yng nghyffiniau dŵr, gan ddilyn yr holl ofynion iechyd a diogelwch perthnasol.
- Datblygu eu hachrediad BICS a chadw i fyny â newidiadau mewn safonau, technegau a deddfwriaeth arolygu.
- Cynorthwyo mewn archwiliadau brys yn dilyn digwyddiadau neu ddigwyddiadau tywydd eithafol.
- Symud ymlaen tuag at ardystio ar lefel 'Arolygydd' neu 'Uwch Arolygydd' drwy'r Cynllun Cymhwysedd Arolygydd Pontydd (BICS).
- Datblygu a chynnal perthynas ymarferol a phroffesiynol gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Darparwyr Gwasanaeth Awdurdodau Partner ACGCC, Contractwyr ac Ymgynghorwyr allanol ar y fframwaith a heb fod ar y fframwaith.
- Cynorthwyo i baratoi amcangyfrifon costau, creu asesiadau risg a datganiadau dulliau, cynllunio gofynion arolygu strwythurau priffyrdd, cynhyrchu rhaglenni. Monitro cynnydd gwirioneddol yn erbyn y rhagolygon a chymryd camau adferol angenrheidiol.



# Manylion Person

**Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.**

## Meini prawf penodol i'r swydd

### Hanfodol

Yr ydym yn chwilio am berson sydd ar allu i weithio mewn tîm, sydd yn hunan-reolaeth ac yn gallu dangos arloesedd a chreadigrwydd. Parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am ei weithredoedd ei hun o fewn paramedrau diffiniedig, medru ysgogi ei hun yn dda ac yn ymroddedig iawn, ac sydd a sgiliau rhyngbersonol wedi'u datblygu'n dda.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

### Hanfodol

Chwilio am berson sydd a HNC ynghyd â 5 mlynedd o brofiad peirianneg NEU HNC ynghyd â 2 flynedd o brofiad cynnal a chadw ac arolygu strwythurau priffyrdd NEU Radd mewn Peirianneg Sifil/Strwythurol a'r parodrwydd i symud ymlaen tuag at Gynllun Sector Cenedlaethol 31 mewn Arolygu Strwythurau Priffyrdd.

## Profiad perthnasol

### Hanfodol

Rydym yn chwilio am rywun sydd â phrofiad o archwilio, cynnal a chadw neu ddylunio strwythurau priffyrdd.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

### Hanfodol

Rydym yn chwilio am rywun sydd â gwybodaeth strwythurol sy'n gysylltiedig â phriffyrdd ynghyd â gwybodaeth am ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a gweithredu technegau rheoli risg. Yn hyddysg mewn TG, â sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig datblygedig iawn ac yn dal trwydded yrru lawn gyfredol y DU.

## Gofynion ieithyddol

### Hanfodol

Mae'r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGChC yn lle cyffrous i weithio. Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a



- 29.5 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.